# Darparu amgylchedd cartref i unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion pan fyddwch yn rhoi cartref i unigolion sydd angen gofal neu gymorth. Mae'r safon yn cynnwys croesawu unigolion i'ch cartref a'u cynorthwyo i ymgartrefu. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd nodi anghenion, cefndir a phrofiad unigolion a'r cymorth y gallai fod ei angen ar eraill i addasu a chroesawu'r unigolyn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth gan drefnwyr lleoliadau am unigolion a thelerau ac amodau’r lleoliadau
2. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau pawb sy’n ymwneud â darparu amgylcheddau cartref i unigolion
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi eu dewisiadau, anghenion ac unrhyw bryderon
4. myfyrio ag eraill yn y tŷ ynghylch sut y gallai bywyd a threfniadau byw newid, a nodi'r cymorth sydd ei angen
5. croesawu unigolion i'ch cartref
6. cyflwyno unigolion i eraill mewn ffyrdd sy'n dangos parch at bawb
7. annog eraill i groesawu a chynnwys unigolion fel aelodau o’r cartref
8. cefnogi unigolion i ymgartrefu drwy roi amser, lle a chefnogaeth i gwrdd â’u dewisiadau a’u hanghenion
9. darparu lle yn y tŷ sy'n bersonol i unigolion lle gallant gadw eu heiddo
10. trafod y trefniadau byw a'r rheolau sylfaenol y mae'r aelwyd yn cadw atynt gydag unigolion ac eraill
11. gweithio mewn partneriaeth i ystyried sut y gellir cwrdd â dewisiadau, anghenion a diogelwch cartrefi, a mynd i’r afael ag unrhyw bryderon
12. annog a chefnogi unigolion ac eraill i nodi manteision bod yn rhan o aelwyd, a hynny iddynt eu hunain ac i eraill
13. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi’r canlyniadau maent yn dymuno gweithio atynt tra eu bod yn rhan o’r aelwyd
14. cefnogi unigolion i gynnal ac ehangu eu cysylltiadau cymdeithasol
15. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion yn eu bywydau bob dydd
16. grymuso a chefnogi unigolion ac eraill i gyflawni’r canlyniadau maent wedi’u gosod
17. cefnogi unigolion ac eraill i werthuso sut mae pethau’n mynd â’r lleoliadau ac unrhyw newidiadau sydd eu hangen i gwrdd â’u dewisiadau a’u hanghenion
18. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer darparu amgylchedd cartref i unigolion
19. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i ddarparu amgylchedd cartref i unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth a chymorth wrth baratoi i ddarparu amgylcheddau cartref i unigolion, a sut i adolygu'r wybodaeth honno
2. sut mae canfod a oes modd darparu ar gyfer dewisiadau ac anghenion unigolion yn amgylchedd eich cartref
3. sut mae cydbwyso dewisiadau ac anghenion unigolion ac eraill yn amgylchedd eich cartref gan gynnal cyfrinachedd
4. addasiadau amgylcheddol gwahanol a allai fod yn ofynnol i unigolion mewn cartrefi
5. yr effaith ar eraill yn y cartref a sut i'w paratoi ar gyfer yr adeg y bydd unigolion yn symud i mewn
6. y cymorth sydd ar gael drwy ddarparwyr lleoliadau
7. sut mae hybu'r broses o integreiddio unigolion i'ch cartref
8. dylanwad diwylliant, cefndir a ysbrydolrwydd ar integreiddio i'ch cartref
9. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ddarparu amgylchedd cartref i unigolion
10. rôl perthnasoedd ar lesiant unigolion a'r ystyriaethau posibl
11. effaith tarfu ar unigolion ac eraill, gan gynnwys tarfu ar leoliadau
12. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion mewn amgylcheddau cartref
13. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth integreiddio i aelwydydd
14. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol wrth ddarparu amgylcheddau cartref i unigolion
15. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer darparu amgylchedd cartref i unigolion
16. damcaniaethau sy'n berthnasol i ddarparu amgylchedd cartref i unigolion
17. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer darparu amgylchedd cartref i unigolion
18. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth ddarparu amgylchedd cartref i unigolion
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu amgylchedd cartref i unigolion
20. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth ddarparu amgylchedd cartref i unigolion, a sut i fynd i'r afael â hyn

21. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth ddarparu amgylchedd cartref i unigolion

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Darparu amgylchedd cartref i unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD315 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | amgylchedd cartref, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |